

PWYLLGOR ADOLYGU GWEITHREDOL

7 Rhagfyr 2016

Yn Bresennol: Cynghorydd R Kilmister (Cadeirydd)
Cynghorydd ML Evans, Ms C Gwyther, Cynghorydd P Harries,
Cynghorydd PJ Morgan, Mr AE Sangster a'r Cynghorydd A Wilcox

(Swyddfa'r APC, Parc Llanion, Doc Penfro: 10.00am – 12.25pm)

1. Ymddiheuriadau am absenoldeb

Derbyniwyd ymddiheuriad am fod yn absennol oddi wrth y Cynghorydd S Hudson,

2. Datgan Buddiannau

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

3. Cofnodion

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 21ain o Fedi 2016 i'w cadarnhau a'u llofnodi.

PENDERFYNWYD cadarnhau a llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 21ain o Fedi 2016.

4. Adolygu'r Gwerthuso a wnaed gyda Defnyddwyr Menter 'Dewch i Gerdded' (Walkability) Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Atgoffwyd yr Aelodau mai menter iechyd a lles corfforol oedd 'Dewch i Gerdded' a lansiwyd gan yr Awdurdod yn 2011, oedd yn cynnig cyfleoedd â chymorth i gerdded o fewn ac o gwmpas y Parc Cenedlaethol. Roedd y mwyafrif oedd yn cymryd rhan â risg uwch o iechyd gwael oherwydd eu hamgylchiadau neu eu cyflwr iechyd presennol, ac roedd sawl un ohonynt wedi'u hatgyfeirio i'r prosiect gan eu clinigwyr drwy'r Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff.

Ariannwyd y prosiect i gychwyn drwy'r grant prosiect Chwaraeon Cymru, ac wedi hynny ariannwyd y prosiect gan Dewch i Gerdded Cymru a gan amrywiol ffynonellau o grantiau bach er mwyn datblygu ac ehangu gwaith yr Awdurdod yn y maes hwn. Hefyd derbyniodd 'Dewch i Gerdded' arian o gronfa graidd yr Awdurdod.

Cafodd enghreifftiau o'r grwpiau a gymerodd ran eu nodi yn yr adroddiad. Fodd bynnag pleser gan y Cadeirydd oedd croesawu defnyddwyr y gwasanaeth i'r cyfarfod, sef Jenny Mathieson, Therapydd Galwedigaethol, yn ogystal ag Isabelle a Helen.

Eglurodd Jenny Mathieson ei bod fel Therapydd Galwedigaethol wedi ceisio galluogi pobl i wneud pethau oedd o bwys iddynt hwy. Bu'n trefnu dau grŵp - grŵp iechyd lliniarol yn Nhŷ Shalom yn Nhyddewi, a grŵp o ferched oedd wedi cwblhau triniaeth yn dilyn canser y fron. Gwelwyd bod ymarfer corff yn dda i'r



ddau grŵp, a bod ymarfer yn yr awyr agored hyd yn oed yn fwy buddiol. Roedd 'Dewch i Gerdded' yn darparu'r cludiant, cadeiriau olwyn/cymhorthion priodol yn ogystal â gwybodaeth am ddod o hyd i lwybr priodol i anghenion y grŵp. Hefyd diolchodd Mrs Mathieson i'r Swyddog 'Dewch i Gerdded' am ei gymorth a'i agwedd 'gallaf wneud'. Dywedodd bod y grwpiau yn galluogi'r cleifion i gymryd yr awenau yn y broses o wella, lle'r oedd hyn yn bosibl, ac yn rhoi cyfle i fyw bywyd llawn i bawb oedd yn cymryd rhan.

Roedd Helen ac Isabelle yn rhan o'r grŵp cerdded bore dydd Mawrth oedd yn cyfarfod bob wythnos yn Hwlfordd. Roedd y ddwy yn cytuno mai'r budd mwyaf o fynd allan i'r awyr agored oedd i gadw'n heini ac yn iach - oedd yn llesol yn gorfforol ac yn feddyliol. Roedd y grŵp yn cyfarfod fel arfer waeth beth oedd y tywydd, a phleser i'r aelodau oedd gwneud ffrindiau newydd, dysgu am hanes, ffawna a fflora Sir Benfro ac ymweld â llefydd newydd yr oeddent yn eu rhannu wedyn â'u teuluoedd a ffrindiau. Hefyd dywedodd y ddwy eu bod yn teimlo'n fwy diogel a mwy hyderus yn cerdded fel rhan o grŵp. Roeddent yn dyst i'r budd yr oeddent wedi'i gael ac i'r modd yr oedd y grŵp wedi cyflwyno ardaloedd newydd o'r sir iddynt.

Diolchodd yr Aelodau i'r tair am ddod i'r cyfarfod i rannu eu profiadau o'r prosiect drwy eu cyflwyniadau gwirioneddol angerddol oedd wedi bod o gymorth i'r Aelodau wella eu dealltwriaeth o effaith y gwaith a wneir. Gofynnwyd wedyn i'r Swyddog Dewch i Gerdded sut yr oedd yntau yn gweld y prosiect yn datblygu yn y dyfodol ac a ellid gwneud mwy o waith fel rhan o Gynllun Llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Atebodd y Swyddog drwy ddweud bod capasiti yn broblem, a bod cyrsiau i arweinwyr cerdded yn cael eu cynnal i alluogi grwpiau fod yn hunangynhaliol. Fodd bynnag, roedd grwpiau megis grwpiau o gartrefi gofal a meddygfeydd wedi'u cynnal yn y gorffennol ac wedi bod yn llwyddiannus, a'r gobaith oedd y byddai cymorth gan staff y llefydd hynny yn galluogi mwy o waith gael ei wneud yn y lleoliadau hynny yn y dyfodol.

O ran gweithio gydag asiantaethau eraill o fewn y sir i hyrwyddo buddiannau'r prosiect, ychwanegodd y Prif Weithredwr ei fod o'r farn y byddai'n ddefnyddiol i aelodau'r Bwrdd lechyd a Chyngor Sir Penfro dderbyn cyflwyniadau tebyg i'r rhai a glywodd y Pwyllgor, a gobeithiai y byddai'r lles a ddaw o gerdded yn cael ei amlygu yn y Cynllun Llesiant pan fydd hwnnw'n cael ei ddatblygu. Hefyd roedd gwaith yn cael ei wneud drwy bod yr Awdurdod yn ymwneud â Rhwydwaith Gwasanaethau lechyd Naturiol Gorllewin Cymru oedd yn rhoi pwyslais ar ddefnyddio profiadau ym myd natur a'r awyr agored i wella iechyd corfforol a meddyliol.

NODWYD.

5. Diweddariad ar Weithgaredd Parcmyn Ieuenctid ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro a'r cyffiniau

Dywedwyd bod y cynllun Parcmyn Ieuenctid wedi'i gychwyn fel modd o roi mwy o gyfleoedd i bobl ifanc o sefydliadau sy'n ymwneud â'r prosiect Eich Parc a ariennir gan y Loteri, gan eu galluogi i ddychwelyd i'w sefydliadau eu hunain a sefydliadau eraill â'r sgiliau i gynnal cymhelliant a momentwm i ddefnyddio'r cyfleusterau awyr agored. Roeddent wedi cymryd rhan mewn sesiynau diwrnod



llawn neu dros nos bob mis, gan ennill profiad unigryw o rinweddau arbennig y Parc Cenedlaethol a gwneud amrywiol weithgareddau o gadwraeth ymarferol i gefnogi presenoldeb yr Awdurdod mewn nifer o ddigwyddiadau. Roeddent felly yn gallu bod yn 'llysgenhadon ifanc' i'r Awdurdod, gan roi persbectif person ifanc, rhannu eu profiadau a chodi proffil y Parc Cenedlaethol fel ased gwerthfawr i bobl ifanc.

Wedyn rhoddodd Daniel Jones, un o'r Parcmyn leuenctid, gyflwyniad i'r Pwyllgor, pan eglurodd mai grŵp o bobl 16-25 oed oedd y Parcmyn leuenctid oedd yn cael eu codi gan fws mini ar un bore Sadwrn bob mis ac oedd yn gwneud amrywiol weithgareddau megis tynnu Jac y Neidiwr (Himalayan Balsam), gweithio ar brosiect i wella hygyrchedd ar safle ym Mhortfield Gate, gwaith cadwraeth ar ynys Skomer a hefyd cynrychioli'r Awdurdod yn Sioe'r Sir, Gŵyl Bwyd Gwylt, Wythnos Pysgod ac ati. Iddo ef, y manteision o fod yn Barcmon leuenctid oedd y cyfle i fynd allan a chael profiad o harddwch naturiol Sir Benfro, cael persbectif o'r newydd ar gadwraeth cefn gwlad, cyfarfod â phobl newydd a dysgu am bosibiliadau gyrfa newydd. Ategwyd ei sylwadau gan Arianne mewn cyfweiliad a recordiwyd ar fideo oedd wedi'i wneud ar un o'r sesiynau diweddar i'r Parcmyn leuenctid.

Barnwyd ei fod yn hyrwyddwr penigamp i'r cynllun Parcmyn leuenctid, a diolchodd yr Aelodau i Dan ac i'r Parcmon Darganfod Tom Moses, oedd yn arwain y prosiect, am gyflwyniad hynod ddiddorol.

NODWYD.

6. Cysylltiad rhwng Cynefinoedd a'r Rhaglen Rheoli Tir

Eglurodd y Swyddog Bioamrywiaeth bod cysylltiad rhwng tirweddau yn cyfeirio at y graddau y mae'r dirwedd yn caniatáu i rywogaethau symud o fan i fan, a bod hyn yn golygu gwahanol bethau i wahanol rywogaethau, yn dibynnu ar bethau megis eu gallu i grwydro a gofynion eu cylch-bywyd. I rai rhywogaethau, nid oes raid i ardaloedd eu cynefinoedd fod wedi'u cysylltu yn ffisegol i fod 'â chysylltedd'. Mae mwy o gysylltedd yn rhoi mwy o gydnerthedd i rywogaeth. Serch hynny, tirwedd dameidiog iawn sydd i'r Parc Cenedlaethol hyd yn oed, ac roedd rheoli'r tir felly wedi canolbwyntio ar wella ansawdd y cynefin, eu clustogi i'w gwneud yn fwy o faint a'u cysylltu â choridorau a 'cherrig camu' i gynorthwyo rhywogaethau i symud o un ardal i'r llall.

Er mwyn gallu gweld yn union beth yw cysylltedd, cafodd offeryn mapio ar-lein ar gyfer amrediad o rywogaethau/grwpiau rhywogaethau ei gomisiynu gan Bartneriaeth Bioamrywiaeth Sir Benfro ar Benrhyn Castell Martin yn 2015. Cafodd y mapio ei ymestyn i gynnwys Sir Benfro gyfan, ac roedd ar gael fel adnodd ar-lein. Gellid defnyddio'r mapiau i asesu budd ehangach posibl o reoli tir cadwraeth ar safle ac i awgrymu ardaloedd lle gellid chwilio am gyfleoedd. Gan fod llawer o'r wybodaeth yn wybodaeth sensitif, nid oedd y cyfleuster ar gael i'r cyhoedd.

Roedd rhaglen rheoli tir yr Awdurdod yn ceisio sefydlogi, helaethu, cysylltu a chreu safleoedd o werth cadwraeth, gan gymryd i ystyriaeth y blaenoriaethau cadwraeth rhyngwladol, cenedlaethol a lleol, ac roedd cysylltedd yn ystyriaeth



wrth asesu safleoedd cadwraeth newydd. Roedd y dull hwn yn ategu'r nod 'cyd-nerthu' yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac yn gymorth i gyflawni dyletswyddau'r Awdurdod o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Y gobaith oedd y byddai'r sail statudol dros gymryd cysylltedd i ystyriaeth yn arwain at fwy o fabwysiadu'r egwyddorion gan awdurdodau perthnasol, mwy o gyfleoedd i gydweithredu, sy'n arwain at well canlyniadau o ran cadwraeth.

Roedd cwestiynau'r Aelodau yn canolbwyntio yn bennaf ar y modd yr oedd yr Awdurdod yn gweithio gydag asiantaethau eraill ac a allai newidiadau i gynllun Glastir Llywodraeth Cymru fod o gymorth i wella cysylltedd. Atebodd y swyddog drwy ddweud bod gweithio gydag asiantaethau eraill yn hanfodol a bod y cynllun yng Nghwm Gwaun yn enghraifft dda o hynny. Gan mai gwirfoddol yw cytundebau rheoli tir, roedd cyfle i glustnodi tir a berchnogir gan eraill oedd yn gweld gwerth mewn trefn rheoli o'r fath, yn allweddol i wella cysylltedd. O ran Glastir, nodwyd bod Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod angen gwella'r cynllun, a'r gobaith oedd y byddai cyfleoedd i ddylanwadu ar newidiadau yn y dyfodol yn gadarnhaol.

NODWYD.

7. Arolwg o Ddefnyddwyr Llwybr yr Arfordir 2015-16

Gyda chytundeb y Cadeirydd, roedd yr eitem hon, oedd wedi'i chyfeirio at y Pwyllgor gan y cyfarfod yn ddiweddar o'r Awdurdod Parc Cenedlaethol, wedi'i dwyn ymlaen ar yr agenda i sicrhau bod digon o amser i'r Aelodau ofyn cwestiynau ar y cyflwyniad.

Roedd y Rheolwr Mynediad a Hawliau Tramwy wedi atgoffa'r Pwyllgor bod rhwydwaith o hawliau tramwy cyhoeddus yn y Parc Cenedlaethol, yn ychwanegol i Lwybr yr Arfordir, a gynhelir gan yr Awdurdod. Y rhwydwaith hwn oedd y prif gyfrwng i alluogi ymwelwyr archwilio a mwynhau arfordir a chefn gwlad y Parc Cenedlaethol ac oedd i gyfrif am wariant blynyddol sylweddol o ran gwaith cynnal-a-chadw. O bryd i'w gilydd felly roedd angen cael barn y preswylwyr a'r ymwelwyr niferus oedd yn cerdded ar hyd yr hawliau tramwy cyhoeddus yn y Parc Cenedlaethol, sef defnyddwyr y gwasanaeth i bob pwrpas. Prif bwrpas arolwg 2015-16 felly oedd penderfynu pwy oedd yn cerdded yn y Parc Cenedlaethol a pha mor aml, pam oeddent yn defnyddio'r hawliau tramwy cyhoeddus, beth oedd eu barn am gyflwr cyffredinol y rhwydwaith o lwybrau, a beth ellid ei wneud i wella'r profiad cerdded ac annog mwy o bobl i gael mynediad i'r arfordir a'r cefn gwlad.

Roedd yr arolwg wedi rhedeg yn ddi-fwlch o fis Awst 2015 tan fis Gorffennaf 2016, a chynhaliwyd arolwg hunan-lenwi mewn deuddeg lleoliad - saith ohonynt ar Lwybr yr Arfordir a phump ar y rhwydwaith mewnol o hawliau tramwy cyhoeddus. Dewiswyd gorsafoedd yr arolwg i sicrhau eu bod yn agos at ddyfais cyfrif ddigidol cudd defnyddwyr y llwybr oedd yn galluogi cael sampl o ymatebwyr oedd yn gymharol i gyfanswm nifer y cerddwyr i'w gofnodi. Roedd 2,959 wedi llenwi'r holiaduron.



Roedd crynodeb o'r canlyniadau wedi'i gynnwys yn yr adroddiad gyda'r penawdau, nid annisgwyl, bod 72% o'r cerddwyr wedi defnyddio'r llwybrau rhwng mis Mai a mis Medi a'r pellter cerdded ar gyfartaledd oedd 7.3 milltir. O ran cyflwr y llwybrau, roedd lefelau uchel iawn o fodlonrwydd o ran wyneb y llwybrau, yr ymylon, yr arwyddion, ietiau a sticlau, gyda 95% o'r rhai a ymatebodd yn nodi bod y cyflwr yn ardderchog neu'n dda. Yr ysgogiad dros gerdded oedd i fwynhau'r dirwedd naturiol, ac o ran yr hyn y gellid ei wneud i annog pobl i gerdded yn amlach, roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr o'r farn y dylid darparu mwy o arwyddion pellter a chyrchfan, yn ogystal â mwy o ganllawiau printiedig ar y teithiau cerdded a mwy o gyhoeddusrwydd am y cyfleoedd mynediad. Roedd y swyddogion o'r farn felly bod yr adborth wedi bod yn dda ac yn glod i'r Wardeniaid oedd yn cynnal y llwybrau.

Holodd un Aelod, oedd yn defnyddio'r Teithiau Cerdded ar wefan yr Awdurdod yn gyson, a oedd yn bosibl cynnwys mwy o wybodaeth ynghylch yr hyn yr oedd y cerddwr yn debygol o ddod ar ei draws ar y daith, lefel anhawster y daith, ac a oedd cyflwr y llwybr yn dueddol o ddirywio mewn tywydd gwael. Hefyd nodwyd bod ymwelwyr o America yn cyfeirio at Llwybr yr Arfordir fel 'trail' ac mai llwybr iddynt hwy yw llwybr mwy trefol ei natur. O ran cael naws trefol i gefn gwlad, roedd yr Aelodau hefyd wedi pwysleisio na fyddent yn hapus gyda gormod o arwyddion, ond yn hapus gyda darparu gwell arwyddion.

Aeth y Swyddog rhagddo i hysbysu'r Aelodau bod yr Awdurdod yn gynharach yn y flwyddyn wedi bod yn ddigon ffodus o gael benthyg y camera 'Google Trekker' i ffilmio Llwybr yr Arfordir yn yr un modd ag y mae'r Google Maps 'Street view' yn gweithio. Roedd y Llwybr ar ei hyd wedi'i ffilmio yn ystod misoedd Mai a Mehefin, a dangoswyd rhagolwg i'r Aelodau o'r lluniau fyddai ar gael ddechrau 2017.

NODWYD.

8. Adroddiad Perfformiad am y cyfnod yn diwedd 31 Hydref 2016

Dywedodd y Cydlynnydd Perfformiad a Chydymffurfiaeth bod yr adroddiad perfformiad wedi'i addasu i ddilyn strwythur y Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2016-17, oedd ei hun yn dilyn trefn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol oedd â saith o amcanion llesiant ac adran ychwanegol oedd yn cyflwyno gwybodaeth gyffredinol am lywodraethu.

Roedd yr adroddiad yn cyflwyno perfformiad hyd at 31 Hydref. Fodd bynnag roedd rhai setiau data ond yn ymwneud â'r ddau chwarter cyntaf o'r flwyddyn ariannol h.y. o fis Ebrill i fis Medi.

Nodwyd bod nifer o setiau data wedi eu dadelfennu i roi darlun mwy cywir o'r meysydd hynny, megis data am drawiadau i'r wefan â gwybodaeth yn awr am berfformiad ar draws y tri safle ar wahân. Hefyd roedd y data ar brosiectau'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy wedi cael ei ddiwygio o brosiectau oedd wedi'u cymeradwyo i brosiectau byw i alluogi gwell dadansoddiad o gyfraniad at y gwahanol amcanion llesiant o fewn y Cynllun Corfforaethol.



Dim ond un Mesur gafodd ei amlygu mewn coch, ac roedd hwn yn ymwneud â gostyngiad yn y trawiadau i'r wefan ar y wefan Mwynhau. Dywedodd y Swyddogion bod y wefan hon ar wahân i brif wefan yr Awdurdod, a bod adolygiad o'r cyfeiriad/dulliau yn y dyfodol oedd eu hangen o ran y safle, yn awr ar y gweill.

NODWYD.

9. Cofrestr Risg

Dyweddodd y Prif Weithredwr bod y Timau Rheoli ac Arwain wedi adolygu'r gofrestr risg a bod y camau a gymerwyd yn ddiweddar a'r newidiadau wedi'u nodi. Yr unig newid a wnaed oedd cynnwys y risgiau oedd yn gysylltiedig â'r ymateb i'r ymgynghoriad ar Ddarparu Gwybodaeth a'r ymgynghori â'r cyhoedd ar hynny. Cynhaliwyd cyfarfodydd cyhoeddus yn Nhrefdraeth ac yn Ninbych-y-pysgod i roi manylion am y cynnig. Nid oedd unrhyw risgiau eraill wedi newid.

O ran y diweddariad ar Risg 17 sef risg o ddigwyddiad mawr fyddai'n effeithio ar neu'n cynnwys staff ac adnoddau'r APC, holodd un Aelod a oedd cynlluniau wrth gefn yn cael eu paratoi neu'n cael eu diweddarau. Cadarnhaodd y Prif Weithredwr bod y cynlluniau yn cael eu hadolygu mewn ymateb i gwestiynau a godwyd gan Archwilwyr Mewnol yr Awdurdod.

NODWYD.

10. Grŵp Gwelliant Parhaus: dirprwyo materion

PENDERFYNWYD nad oedd unrhyw faterion yr oedd angen eu dirprwyo i'r grŵp Gwella Parhaus i'w hystyried.

